Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# **Amserlen ar gyfer ystyried:** Y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3) a (Rhif 4) ar y Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2)

Medi 2025

Ar 16 Medi 2025, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried a chyflwyno adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3) y Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2). Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd ymlaen llaw i wahodd y ddau bwyllgor i ystyried ac adrodd ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 4) ar gyfer yr un Bil.

Yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(ii), cytunodd y Pwyllgor Busnes ar ddyddiad cau i'r pwyllgorau gyflwyno adroddiad ar y memoranda sy'n ymwneud â'r Bil, sef 22 Medi 2025.